**Rhif: WG27798**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

Cynnig: Gwasanaeth Gofal Llygaid ar gyfer Ddisgyblion Ysgol yng Nghymru (GGLCG)

Dyddiad cyhoeddi: 8 Chwefror 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 2 Mai 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn ceisio ymgysylltu ehangach ar y cynnig i ddatblygu Gwasanaeth Offthalmig Cymunedol yng Nghymru.

**Sut i ymateb**

Cewch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein/trwy'r bost ar ein gwefan isod erbyn 2 Mai at yr hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion Cysylltu**

I gael mwy o wybodaeth:

Enw: Rhodri Griffiths

Cyfeiriad: Y Gangen Polisi Offthalmig, 4ydd Llawr (Dwyrain), CP2, Parc Cathays, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Caerdydd, CF10 3NQ

e-bost: waleseyehealth@wales.gsi.gov.uk

ffôn: 02920 370371

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni:

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn

briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair

## Y Rhagair

Mae’r ddogfen hon yn ceisio ymgysylltu’n ehangach ar y cynnig i ddatblygu, gweithredu a darparu gwasanaeth offthalmig mewn ysgolion arbennig ar draws Cymru, fel y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol sydd eisoes yn ymweld â chategorïau o grwpiau agored i niwed i asesu a darparu triniaeth ar gyfer problemau deintyddol a ganfyddir. Bydd y gwasanaeth arfaethedig i ysgolion arbennig yn darparu gwasanaethau gofal iechyd llygaid i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig a gynhelir.

Bydd gwasanaethau’n cael eu cynnig i ddisgyblion sy’n mynychu ysgolion arbennig, yn unol â’r diffiniad addysgol o ysgol arbennig. Bydd yn rhan newydd o Wasanaethau Gofal Llygaid presennol gofal sylfaenol Cymru.

Cynigir y bydd timau Offthalmig Ysgolion Arbennig, a fydd yn cynnwys optometryddion, orthoptwyr ac optegwyr cyflenwi, yn darparu’r gwasanaeth i ddisgyblion yn yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol.

## Nodau’r gwasanaeth

1. Bydd datblygu’r gwasanaeth offthalmig cymunedol hwn yn sicrhau bod pob plentyn mewn ysgol arbennig yng Nghymru’n gallu cael gwasanaethau offthalmig ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn.

2. Bydd y gwasanaethau offthalmig cymunedol i ddisgyblion sy’n mynd i ysgolion arbennig a gynhelir. Nodau’r gwasanaeth arfaethedig fydd:

- Cynnig asesiad cynhwysfawr pan mae plant yn dechrau mewn ysgol arbennig (asesiad optometrig ac orthoptig ar y cyd fydd hwn)
- Cynnig prawf golwg rheolaidd (o leiaf bob blwyddyn neu’n amlach os argymhellir hynny) a roddir yn amgylchiadau cyfarwydd eu hysgol arbennig
- Rhoi i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig a’u rhieni a/neu ofalwyr y dewis o gael ffitio a chyflenwi sbectol y disgybl yn yr ysgol
- Gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol fel bo’n briodol
- Sicrhau y caiff canlyniadau profion eu hesbonio i’r disgyblion, eu teuluoedd a’u hathrawon, yn ogystal â’u gweithwyr iechyd proffesiynol, drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol ac wrth bontio i fyd oedolion.

3. Drwy gynnig asesiad cynhwysfawr o blant yn eu blwyddyn gyntaf mewn ysgol arbennig, bodlonir gofynion Adroddiad Hall (atodiad 1). Mae'r adroddiad yn gwneud yr argymhelliad penodol y dylai plant â syndromau dysmorffig neu broblemau niwroddatblygiadol gael archwiliad arbenigol ar y llygaid. Yn yr adran ar sgrinio, mae'r adroddiad yn argymell sgrinio golwg pob plentyn pan mae'n 4-5 oed, ond yn ychwanegu'n benodol y dylai plant o unrhyw oed sydd ag unrhyw gyflwr niwrolegol neu gyflwr sy'n anablu gael eu hatgyfeirio fel mater o drefn i gael asesiad o'u golwg. Yn y gwasanaeth, gellir canfod anhwylderau'r llygaid a'r golwg, darparu gwasanaeth cywiro gyda sbectol a threfnu atgyfeiriad ymlaen os oes angen, drwy gydol cyfnod disgybl yn yr ysgol.

4. Bydd profion rheolaidd yn canfod newidiadau mewn anghenion o ran gofal llygaid drwy gydol cyfnod disgybl yn yr ysgol, gan dargedu sylw at y grŵp risg uchel hwn.

5. Drwy fynd yno'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, bydd y tîm Offthalmig Ysgolion Arbennig yn dod yn rhan arferol o amgylchedd yr ysgol arbennig, gan ddarparu cymorth parhaus i'r disgyblion, rhieni a/neu ofalwyr a staff yr ysgol gyda gofal iechyd llygaid a gofynion y disgyblion o ran eu golwg.

**Yr angen am Wasanaeth Gofal Llygaid i Ysgolion Arbennig Cymru**

6. Er bod nam ar y golwg a dallineb yn gymharol brin ymysg plant, mae gan blant ag anableddau dysgu risg llawer uwch o broblemau gyda'r golwg ac anhwylderau iechyd llygaid (atodiadau 2-7). Mae yna dystiolaeth sy'n dangos po fwyaf dwys fo'r anabledd dysgu, y mwyaf yw tebygolrwydd o nam ar y golwg (atodiadau 5, 8). Mae'r gwaith o atal achosion o golli golwg y mae modd eu hosgoi (sy'n cynnwys gwallau plygiannol heb eu cywiro) a chanfod problemau â'r golwg yn gynnar yn dechrau mewn plentyndod. Fodd bynnag, i blant ag anableddau dysgu, mae yna dystiolaeth bod rhwystrau rhag cael gofal llygaid a bod llawer o angen nad yw'n cael ei ddiwallu.

7. Yn 2012, cynhaliwyd prosiect ymchwil i edrych ar y ddarpariaeth gofal llygaid i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion arbennig yng Nghymru. Dangosodd yr adroddiad a ddeilliodd ohono, 'Gweledigaeth Glir: Gofal llygaid i blant a phobl ifanc mewn ysgolion arbennig yng Nghymru' a phapur dilynol a adolygwyd gan gymheiriaid (atodiad 9) fod gan gyfran fawr o'r disgyblion sy'n mynd i ysgolion arbennig wallau plygiannol heb eu cywiro a bod gan rai nam ar y golwg nas adnabuwyd o'r blaen. Dywedodd mwy na 40% o'r disgyblion nad oeddent wedi cael archwiliad ar eu llygaid o'r blaen ac roedd angen sbectol ar 53% ohonynt. Nodwyd hefyd mai dim ond mewn 53% o ysgolion arbennig yr oedd sgrinio'r golwg ar gael yn y flwyddyn derbyn.

8. Dywed yr adroddiad ‘Fel cymdeithas, rydym yn esgeuluso gofal llygaid y disgyblion sydd mewn ysgolion arbennig’.

9. Mae’r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2005) yn nodi bod plant a phobl ifanc ag anableddau angen diagnosis neu nodi anawsterau yn ddigon buan ac ymyrraeth gynnar.

10. Dangosodd yr ymchwil nad oedd problemau llawer o’r plant mewn ysgolion arbennig wedi’u canfod yn gynnar. Nid yw anghenion gofal llygaid y grŵp hwn o blant yn cael ei ddiwallu, ac mae hyn wedi cael ei nodi fel problem ledled y Deyrnas Unedig (atodiad 10).

**Datblygu ac Ymgynghori**

11. Cafodd cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau eu datblygu gan randdeiliaid allweddol a’u hystyried gan Grŵp Llywio Gofal Iechyd Llygaid Cymru. Cafodd y dystiolaeth oedd yn sail i’r cynigion ei chyflwyno i Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Golwg Plant, a ffurfiwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y cynigion yn fanylach ac i ymgynghori’n ehangach gyda’r rheiny â buddiant arbennig. Cafwyd ymatebion cynhwysfawr o bob rhan o Gymru, gan gynnwys gan Optometreg Cymru a chan Gymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain.

12. Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys optometryddion, offthalmolegwyr, rheolwyr byrddau iechyd, athrawon a’r trydydd sector. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y grŵp a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod 2013 a 2014 i ystyried yr ymatebion ac i ddatblygu cynllun drafft.

13. Cafodd y cynllun drafft ei gyflwyno i’r Grŵp Cynghori ar Wasanaethau Golwg Plant yn 2015 a’i gymeradwyo gan y Grŵp.

**Disgrifiad o’r Gwasanaeth**

14. Bydd yn ofynnol i’r gwasanaeth arfaethedig ddarparu gofal llygaid i bob disgybl mewn ysgol arbennig yng Nghymru. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru’n dangos bod yna 4444 o ddisgyblion mewn 39 ysgol arbennig ar draws Cymru yn 2014/15.

**Timau Offthalmig Ysgolion Arbennig**

15. Cynigir y bydd gan bob ysgol arbennig dîm Offthalmig Ysgolion Arbennig dynodedig. Bydd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn y timau gan gynnwys:

Gweithwyr proffesiynol dan gontract
- Optometrydd
- Optegwr cyflenwi

Yn cael ei gyflogi gan Fwrdd Iechyd:
- Orthoptydd – ar gyfer grwpiau oedran penodol sef blynyddoedd derbyn i'r ysgol a gadael yr ysgol

Yn gweithio yn yr ysgol:
- Person cyswllt penodedig yn yr ysgol

**Cydsyniad pobl ifanc a gofalwyr i driniaeth**

16. Bydd angen cydsyniad optio i mewn ar gyfer pob disgybl. Bydd ysgolion yn anfon ffurflenni cydsyniad y Gwasanaeth Gofal Llygaid Ysgolion Arbennig allan ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

17. Cydnabyddir bod nifer llai yn manteisio ar wasanaethau optio i mewn o gymharu â rhai optio allan, at ei gilydd. Bydd angen ystyried hyn gan fod y gwasanaeth hwn hefyd yn bodloni gofynion adroddiad Hall ar gyfer plant 4-5 oed wrth gael eu derbyn i'r ysgol.

18. Yn unol â'r ddogfen 'Valuing People' (Valuing People, A new Strategy for learning disability in the 21st century. Papur gwyn, mis Mawrth 2001) bydd yr holl ohebiaeth a anfonir at riant neu ofalwr y disgybl mewn iaith glir/fformat hawdd ei ddarllen. Bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei chyfieithu i gydymffurfio â'r polisi ar y Gymraeg.

**Offer**

19. Bydd gan bob tîm set o offer i'w galluogi i gyflawni pob agwedd ar y gwaith archwilio llygaid, cyflenwi, adrodd ac atgyfeirio. Bydd yr offer yn cael eu cyflenwi gan y Gwasanaeth Gofal Llygaid Ysgolion Arbennig a'r optometrydd fydd yn gyfrifol am yr offer.

**Darparu sbectol**

20. Bydd rhieni'n cael cynnig dewis o'r canlynol

- dod i'r apwyntiad os hoffent ddewis sbectol
- gadael i'r tîm ddewis sbectol
- cael y daleb GOS 3 i fynd â hi at optometrydd ar y stryd fawr. Mae'n ofyniad statudol i gleifion (rhieni a/neu ofalwr, yn yr achos hwn) gael copi o'r presgripsiwn sbectol, lle bynnag maent yn dewis cael y sbectol

21. Yn aml mae ar blant mewn ysgolion arbennig angen fframiau arbenigol neu addasiadau arbenigol i fframiau sy’n bodoli eisoes. Drwy ddewis a diweddaru’n rheolaidd yr ystod o fframiau sydd ar gael, bydd y gwasanaeth yn cynnig dewis llawer helaethach o fframiau addas nag a all fod ar gael yn y rhan fwyaf o bractisau optometrig.

**Adrodd ac Atgyfeirio**

22. Bydd yn ofynnol i’r optometrydd ddarparu adroddiad ar ôl pob archwiliad o lygaid pob disgybl. Bydd yr adroddiadau’n cael eu hysgrifennu yn fformat safonol y Gwasanaeth Gofal Llygaid Ysgolion Arbennig a’u rhoi fel mater o drefn i riant neu warcheidwad/gofalwr y disgybl, yr ysgol, y meddyg teulu, y paediatregydd a gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg pan fo’n briodol. Bydd cydsyniad rhieni a phobl ifanc yn cynnwys caniatâd i’r gwasanaeth rannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy’n ymwneud â gofal y plentyn.

23. Bydd unrhyw ddisgybl y canfyddir bod ganddo nam ar ei olwg yn cael ei atgyfeirio i’r awdurdod lleol i gael y cymorth addysgol priodol.

**Rheoli’r Gwasanaeth a Llywodraethu Clinigol**

24. Cynigir y dylai’r gwasanaeth newydd gael ei weinyddu a’i reoli mewn modd tebyg i fodel presennol Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru. Rhoddir braslun byr o Wasanaeth Golwg Gwan Cymru, a’i fodel gweithredu unigryw yn y GIG, isod er gwybodaeth:

25. Rhoddir hyfforddiant arbenigol i optometryddion ac optegwyr cyflenwi trwy Arweinydd Clinigol y Gwasanaeth Golwg Gwan yng Nghanolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru. Mae’r hyfforddiant hwn yn achredu ymarferwyr i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol arbenigol i adsefydlu golwg i oedolion a phlant â nam ar eu golwg. Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yw’r enw ar y gwasanaeth hwn. Mae cleifion sy’n cael eu hatgyfeirio i’r gwasanaeth ar gyfer asesiad yn cael eu gweld ym mhractis eu hoptometrydd lleol ar y stryd fawr. Wedyn mae cymorth golwg gwan yn cael ei ragnodi’n ddi-dâl i’r claf. Gall y claf hefyd gael ei gyfeirio a/neu ei atgyfeirio at ddarparwyr iechyd lleol eraill, gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau’r trydydd sector a grwpiau cymorth os yw’n dymuno.

26. Mae Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn cael ei weinyddu gan dîm penodol o staff GIG dan gontract, a’i gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ran holl fyrddau iechyd Cymru. Mae cyfarwyddiadau sefydlog (Cyfarwyddiadau Deddfwriaethol) gan Lywodraeth Cymru i’r

bwrdd iechyd canolog sy'n gyfrifol am y gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth cyfan, o achredu hyfforddiant ymarferwyr i ddarparu'r gwasanaeth, prosesu cardiau cofnod cleifion, darparu eitemau o offer arddangos ac archebu a chyflenwi eitemau rhagnodedig (cymhorthion golwg gwan), yn cael ei gydgysylltu a'i hwyluso trwy un man gweinyddu canolog. Mae'r gwasanaeth yn destun goruchwyliaeth gan y GIG gan gynnwys llywodraethu, archwiliadau ac atebolrwydd clinigol ac ariannol. Mae'r system annibynnol hon yn ei gwneud yn bosibl i'r holl wybodaeth archebu, ariannol a chlinigol a'r holl wybodaeth am gleifion gael ei chasglu a'i phrosesu trwy un system bapur a meddalwedd sydd gan y GIG.

## Hyfforddi ac achredu Timau Offthalmig Ysgolion Arbennig

27. Cynigir y bydd gan yr optometryddion, orthoptwyr ac optegwyr cyflenwi gymhwyster cyfredol ac aelodaeth o'u cyrff rheoleiddio. Mae eu cymhwyster yn sicrhau cymhwysedd mewn meysydd craidd gan gynnwys gweithio gyda phlant a phobl agored i niwed.

28. Bydd angen i'r holl optometryddion fod wedi'u hachredu gan Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a chan Wasanaeth Golwg Gwan Cymru, neu fod yn fodlon cael eu hachredu. Gellir hepgor achrediad gan Wasanaeth Golwg Gwan Cymru os gellir paru optometrydd gydag optegwr cyflenwi sydd ag achrediad Golwg Gwan. Bydd hyn yn golygu y bydd yr ymarferwyr yn gyfarwydd â'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol ac wedi cael hyfforddiant arbenigol mewn namau ar y golwg a'r gwaith o'u rheoli.

29. Hefyd, bydd yn rhaid i bob gweithiwr proffesiynol sydd eisiau darparu'r gwasanaeth hwn gwblhau'n llwyddiannus becyn hyfforddiant i'r Tîm Offthalmig Ysgolion Arbennig sydd i gael ei ddatblygu a'i ddarparu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol a'r cyrff proffesiynol perthnasol.

30. Bydd yr ymarferwyr yn cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd yr hyfforddiant a'r achrediad yn cynnwys diogelu er mwyn gweithio gyda'r grŵp hwn o gleifion agored i niwed.

## Ariannu'r gwasanaeth

31. Cynigir y bydd y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan fodel Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol (GOS) uwch. Mae hawliad GOS i gael ei gyflwyno ar gyfer pob archwiliad ac am gyflenwi sbectol o dan y system gyfredol, gan gael ei ariannu o ddyraniad GOS y byrddau iechyd. Mae hawliad uwch ychwanegol i gael ei gyflwyno i fyrddau iechyd am bob archwiliad llygaid am y rhan arbenigol o'r gwasanaeth. Hwn fydd y gwahaniaeth

rhwng yr hawliad GOS a'r hawliad uwch i fodloni gofynion y model gwasanaeth uwch. Rhagwelir y byddai'r hawliad uwch yn cael ei ariannu gan yr holl fyrddau iechyd a'i weinyddu gan y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am y gwasanaeth, sydd ar hyn o bryd yn darparu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, ar ran yr holl fyrddau iechyd.

32. Mae modelau gwasanaeth uwch yn cael eu defnyddio fwyfwy ledled y Deyrnas Unedig i ddarparu gwasanaethau arbenigol a chynigir y bydd lefel y taliad uwch yn debyg i rai o'r cynlluniau hyn.

33. Bydd y model gwasanaeth uwch yn galw am ganllawiau a phrotocolau a fydd yn diffinio manylion y gwasanaeth mae angen ei ddarparu, gan nodi'r trefniadau ariannu cenedlaethol ar gyfer elfen uwch y gwasanaeth, rheoli, canllawiau clinigol a safonau perfformiad a gweinyddiaeth. Caiff hyn ei ddatblygu'n unol â'r trefniadau canllawiau a phrotocolau cyfredol a grëwyd i ddarparu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru.

**Llywodraethu a threfniadau diogelu**

34. Cynigir y bydd dwy haen o lywodraethu a threfniadau diogelu'n bosibl trwy ddefnyddio model GOS uwch.

35. Drwy ddarparu rhan o'r gwasanaeth o dan y Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol, bydd yn ofynnol i'r holl ddarparwyr ac ymarferwyr gadw at y strwythurau llywodraethu a bennir gan y telerau gwasanaeth. Er na ellir rhoi cyfrifoldebau ychwanegol ar ddarparwr sy'n hawlio GOS mewn ysgol arbennig, mae'r systemau hyn ar gyfer craffu wedi'u hen sefydlu ac yn diogelu darpariaeth gwasanaethau GIG i unrhyw un sy'n gymwys i gael prawf golwg GIG ledled y Deyrnas Unedig.

36. Cynigir y dylai ail haen o lywodraethu a diogelu gael ei darparu gan y bwrdd iechyd GIG sy'n gyfrifol am y gwasanaeth, a all ddiffinio'n fanwl yr holl agweddau a ddisgwylir gan wasanaeth ysgolion arbennig.

**Archwilio a gwerthuso**

37. Cynigir, yn ystod y cyfnod cyntaf, y bydd y ffordd y gweithredir yr holl agweddau ar y gwasanaeth yn cael ei gwerthuso, gan sicrhau adborth parhaus i'r model gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth uwch yn caniatáu i'r arweinydd clinigol/y rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaeth gael gwerthusiadau ac adborth.

38. Drwy ddefnyddio model rheoli canolog gellir cynllunio'r holl waith archwilio a rhoi gwersi ar waith mewn modd rheoledig ledled y gwasanaeth.

**Trosglwyddo**

39. Heb drefniadau trosglwyddo, bydd disgyblion sy’n gadael yr ysgol yn ei chael yn heriol defnyddio gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol confensiynol ac mae’n bosibl y bydd gofal llygaid yn cael ei esgeuluso. Bydd datblygu trefniadau trosglwyddo’n galluogi disgyblion i ddod i arfer â’r optometrydd a’i broses a’i weithdrefnau mewn amgylchiadau cyfarwydd.

40. Pan mae disgybl yn gadael ysgol arbennig ac yn dechrau defnyddio gwasanaethau oedolion, boed mynd i goleg, cyflogaeth neu wasanaethau gofal dydd, dylai’r cofnodion ynghylch ei ofal iechyd llygaid a’r cymorth i’w anawsterau golwg ddilyn y disgybl fel nad oes angen i’r gwasanaethau i oedolion ddechrau eto i ganfod ei anghenion o ran ei olwg.

41. Yn y gwasanaeth arfaethedig, bydd pob un sy’n gadael yr ysgol yn cael adroddiad (‘pasbort golwg’) yn nodi manylion ei anghenion o ran ei olwg, ac mae’r pasbort hwnnw’n dod yn eiddo i’r disgybl. Yn eu blwyddyn olaf, caiff disgyblion eu hasesu gan y Tîm Offthalmig Ysgolion Arbennig (a fydd o bosibl yn cynnwys orthoptydd) a fydd yn cyfrannu at y pasbort. Byddir hefyd yn ceisio cyfraniad gan unrhyw wasanaethau nam ar y golwg sy’n ymwneud â gofal y disgyblion.

**Gwasanaeth Llygaid Gofal Eilaidd mewn Ysbyty**

42. Mae’n bosibl y bydd y Gwasanaeth Gofal Llygaid Ysgolion Arbennig yn cynyddu nifer yr atgyfeiriadau i’r gwasanaeth llygaid mewn ysbyty yn dilyn archwiliadau llygaid llwyddiannus a chanfod patholeg na chafodd ddiagnosis cyn hynny.

43. Mae yna bosibilrwydd y gallai disgyblion sydd ar hyn o bryd yn cael eu gweld mewn ysbyty ar gyfer gwall plygiannol gael eu gweld yn eu hysgol gan y Tîm Offthalmig Ysgolion Arbennig yn lle hynny, gan leihau’r effaith ar ofal eilaidd mewn ysbytai. Ar ôl i’r disgybl gael ei ryddhau o’r ysbyty, dylid cynghori ei riant neu ofalwr i dderbyn y cynnig o archwiliadau rheolaidd gan Wasanaeth Gofal Llygaid Ysgolion Arbennig Cymru.

44. Bydd y gwasanaeth arfaethedig a weinyddir yn ganolog yn gallu archwilio’r effeithiau hyn ar ofal eilaidd.

## Atodiad 1 – cyfeiriadau


1. Hall D, Elliman D. Health for all children. Revised fourth edition ed. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen; 2008.
2. Das M, Spowart K, Crossley S, Dutton GN. Evidence that children with special needs all require visual assessment. Archives of Diseases in Childhood. 2010;95(11):888-92.
3. Ghasia F, Brunstrom J, Gordon M, Tychsen L. Frequency and severity of visual sensory and motor deficits in children with cerebral palsy: Gross motor function classification scale. Investigative Ophthalmology & Visual Science. 2008;49(2):572-80.
4. Leekam SR, Nieto C, Libby SJ, Wing L, Gould J. Describing the sensory abnormalities of children and adults with autism. Journal of Autism and Developmental Disorders. 2007;37(5):894-910.
5. Nielsen LS, Skov L, Jensen H. Visual dysfunctions and ocular disorders in children with developmental delay. I. Prevalence, diagnoses and aetiology of visual impairment. Acta Ophthalmologica Scandinavica. 2007a;85(2):149-56.
6. Nielsen LS, Skov L, Jensen H. Visual dysfunctions and ocular disorders in children with developmental delay. II. Aspects of refractive errors, strabismus and contrast sensitivity. Acta Ophthalmologica. 2007b;85(4):419-26.
7. Sobrado P, Suarez J, García-Sánchez FA, Usón E. Refractive errors in children with cerebral palsy, psychomotor retardation, and other non-cerebral palsy neuromotor disabilities. Developmental Medicine and Child Neurology. 1999;41(6):396-403.
8. Akinci A, Oner O, Bozkurt OH, Guven A, Degerliyurt A, Munir K. Refractive errors and ocular findings in children with intellectual disability: a controlled study. Journal of the American Association for Pediatric Ophthalmology and Strabismus. 2008;12(5):477-81.
9. Woodhouse JM, Davies NJ, McAvinchey A, Ryan B. Ocular and visual status among children in special schools in Wales: the burden of unrecognised visual impairment. Archives of Diseases in Childhood. 2013; 99(6):500-504.
10. Pilling R. The management of visual problems in adult patients who have learning disabilities. The Royal College of Ophthalmologists; 2011.

**Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo’n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

| |
|---|
| **Cwestiwn 1:** Ydych chi’n teimlo bod hwn yn wasanaeth sydd ei angen ar ddisgyblion ysgolion arbennig Cymru? |
| **Sylw:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 2**: Fedrwch chi awgrymu dulliau eraill ar gyfer diwallu anghenion y plant? |
| **Sylw:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 3**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu syniadau am ffyrdd o wella’r gwasanaeth sy’n cael ei gynnig? |
| **Sylw:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 4:** Ydych chi’n rhagweld unrhyw broblemau gyda’r gwasanaeth sy’n cael ei gynnig? |
| **Sylw:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 5:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y broses o gasglu cydsyniad ar gyfer yr archwiliadau llygaid? |
| **Sylw:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 6:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi. |
| **Sylw:** |

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐